YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 60
TACHWEDD 2013

Ar ddydd Llun, 28ain Hydref, yn Amgueddfa'r Milwr Cymreig yng Nghastell Caerdydd lansiwyd cynllun cenedlaethol gan y Prif Weinidog Carwyn Jones i goffáu canmlwyddiant cychwyn y Rhyfel Mawr. Fel rhan o'r cynllun nodwyd bod cyllid ar gael i gefnogi rhaglen addysgol i gyd-fynd â'r cofio ac eisoes crewyd gwefan arbennig 'Cymru'n cofio' (www.cymruncofio.org). Yno ar y wefan bydd pob math o wybodaeth a newyddion, ynghyd â phrosiectau a digwyddiadau a fydd yn ymwneud â'r cofio. Caed sôn hefyd y cynhelir digwyddiad arbennig ar ddydd Llun cyntaf Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr yn Llanelli y flwyddyn nesaf am mai dyma'r union ddyddiad y dechreuodd y Rhyfel Mawr, sef y 4ydd Awst.

Mae'n siwr na fyddai neb yn anghytuno bod y cofio yn holl bwysig a hynny er mwyn ein hatgoffa am y miloedd ar filoedd o ddynion ifainc a gollodd eu bywydau o dan amodau erchyll a dirdynnol. Yn ogystal bydd y cofio yn fodd inni ddysgu gwersi pwysig o'r gorffennol ac yn gyfle inni ddod i wybod mwy am gyfnod pan ddigwyddodd newidiadau cymdeithasol mawr. Er enghraifft, yn ystod y Rhyfel Mawr y gwelwyd merched am y tro cyntaf yn cyflawni pob math o swyddi yng ngwledydd Prydain oherwydd prinder dynion. Buont yn gyrru ac yn casglu tâl ar y tramiau, goleuo'r lampau ar y strydoedd, cyflawni gwaith gyda'r swyddfa bost, glanhau simneiau a gweithio yn y ffatrioedd ffrwydron. Agorwyd drysau sawl proffesiwn iddynt ac nid oedd dim troi nôl wedi i'r rhyfel ddod i ben.

Ond wrth gwrs, wrth gofio am gychwyn y rhyfel hwn, ein gobaith pennaf yw y byddwn yn dysgu ac yn sylweddoli o'r newydd y pwysigrwydd o weithio'n barhaol tuag at heddwch yn ein byd. O edrych yn ôl ar hanes y ddynolryw gwyddom pa mor anodd yw sicrhau heddwch ac mor hawdd yw cael ein dallu gan bropaganda militariaeth ein hoes.

Gobeithir hefyd yn ystod y pedair blynedd nesaf y cawn gyfle nid yn unig i gofio am y rhyfel mwyaf gwaedlyd a fu yn hanes y ddynoliaeth ond am yr hyn a wna llywodraethau Cymru a gwledydd Prydain i hyrwyddo heddwch yn ein byd ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain. Cofiwn nad rhywbeth sy'n digwydd ar hap a damwain yw heddwch a thangnefedd. Rhaid bwrw ati ac ymroi i adeiladu heddwch. Mae hyn yn golygu buddsoddi adnoddau, cynyddu ymwybyddiaeth, bod yn weithredol ac ymroi i'r dasg â'n holl nerth a'n gallu.

O Dywysog ein tangnefedd,
cyfaill mwya'r ddaear hon,
gwna elynion yn gyfeillion
heb un brad i boeni bron;
gwrando gri ein henaid ni
am yr hedd sydd ynot ti.

Roger Jones

Pob bendith
Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW. Rhif Ffôn : 01970 820939
E-bost: berwynfa@btinternet.com

CALENDR MIS TACHWEDD 2013

Cyhoeddwr y Mis: Sandra Beechey	Organydd y Mis : Ceris Gruffudd	
3 Tachwedd 2.30yp	Oedfa Gymun : Gweinidog	Bwrdd y Cymun: Mervyn a Sue
10 Tachwedd 9.30yb Sylwer ar yr amser. Cynhelir gwasanaeth Sul y Cofio wrth y gofeb am 10.45yb.	Oedfa Deuluol : Gweinidog Bydd y plant yn cyflwyno eu bocsys Ymgyrch Nadolig y Plentyn.	
17 Tachwedd 2.30yp	Oedfa Bregethu: Dr Rhidian Griffiths	Gofal y Te: Dafydd ac Elen
24 Tachwedd 10.30yb	Oedfa Bregethu: Gweinidog	
1 Rhagfyr 2.30yp Sul Cyntaf Tymor yr Adfent	Oedfa Gymun : Gweinidog *O tyred, di Emanŵel*	Bwrdd y Cymun: I'w drefnu

I'CH DYDDIADUR

4 Tachwedd: Cinio Bara Caws yn Eglwys Dewi Sant, Stryd y Baddon 12.00-1.30yp.
5 Tachwedd: Cymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion yn Siloam, Ferwig.
5 Tachwedd: Cyfarfod i drafod cyflwyniad ar y cyd yn Festri'r Garn am 7yh.
12 Tachwedd: Noson Pwdin, Paned a Chwis yn Festri Horeb 6.30yh.
13 Tachwedd: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00yp. Horeb yn gyfrifol am weini.
19 Tachwedd: Cwrdd Diaconiaid Horeb am 5yh.
20 Tachwedd: Cymdeithas Bethel am 2.30yp. Bydd Mrs Celia Jones yn siarad am 'Iaith Arwyddion' (Sign Language).
20 Tachwedd: Cymdeithas y Penrhyn: Geraint Jones,Trefor yn *Cofio RS* am 7.30yh.
26 Tachwedd: Cylch Darllen y Beibl. Amser i'w gadarnhau.
27 Tachwedd: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00yp
4 Rhagfyr: Cinio Nadolig Cymdeithas Bethel yn 'Y Sosban Fach'.

LLOFFION

Dymuniadau gorau i Lisa, Caernarfon ('Refail Fach), sydd wedi cael triniaeth yn ddiweddar. Brysiwch wella.

Rhaglenni Cymanfa Ganu: Mae Rhaglenni 2014 ar gael gan Ceris – pris £1.35.

.

Ymgyrch Nadolig y Plentyn: Ar fore Sul 11eg Tachwedd am 9.30yb bydd y plant yn cyflwyno bocsys Operation Christmas Child a fydd yn cael eu cludo dramor i blant sydd mewn angen ar gyfer y Nadolig. Os hoffech baratoi bocs cysylltwch â Ceri neu'r Gweinidog am y manylion perthnasol.

Clwb Hanner Tymor Horeb: Diolch yn fawr iawn i Ceri, Eirian, Sioned a Wendy a fu'n cynnal y Clwb Hanner Tymor yn y festri. Diolch hefyd i William am hwyluso trefniadau dangos y ffilm. Cawsom hwyl arbennig yng nghwmni'r plant ac rydym yn ystyried cynnal gweithgaredd eto yn ystod hanner tymor mis Chwefror 2014.

Noson Pwdin a Phaned:12 Tachwedd: Os ydych yn barod i gyfrannu pwdin i'r noson gymdeithasol byddwch garediced â chysylltu â Janice. Bydd yr elw yn mynd tuag at y capel.

Cyflwyniad ar y Cyd:Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol o dan arweiniad Euros Lewis, Felinfach i drafod y posibilrwydd o gynnal cyflwyniad ar y cyd rhwng gofalaeth Bethel a Horeb a gofalaethau Wyn Morris a Richard Lewis. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 5ed Tachwedd.

Cinio Nadolig Cymdeithas Bethel: Estynnir croeso i aelodau Horeb i ymuno â Chymdeithas Bethel am eu cinio Nadolig yn 'Y Sosban Fach'. Y gost am dri chwrs fydd £19.95. Enwau i'r gweinidog os gwelwch yn dda.